

PWYLLGOR	PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL
DYDDIAD:	6 Ragfyr 2021
TEITL:	RHEOLI SEFYDLIADAU RHYW - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1982
PWRPAS:	CYMERADWYO TREFN PROSESU CEISIADAU, FFFIOEDD AC AMODAU SAFONOL AR GYFER TRWYDDEDU A RHEOLEIDDIO SEFYDLIADAU RHYW
AWDUR:	PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD

1. GWYBODAETH GEFNDIROL

- 1.1 Mae'n ofynnol i Awdurdod Trwyddedu sydd yn dymuno rheoleiddio sefydliadau rhyw yn ei ardal fabwysiadu darpariaethau Atodlen 3 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ("Deddf 1982"), fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Plismona a Throseddu 2009 ("Deddf 2009").
- 1.2 Mae mabwysiadu Atodlen 3 o Ddeddf 1982 yn rym dewisol, ac fel arfer yn digwydd pan gyflwynir rhybudd o friad i agor busnes o'r fath am y tro cyntaf. penderfyniad wedi ei wneud i flaenoriaethu'r argymhelliad i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r drefn, oherwydd bod cwmni wedi cyflwyno cais o friad i agor siop rhyw yn Abermaw, a bod hyn wedi amlygu'r bwlch yn y gyfundrefn drwyddedu.
- 1.3 Fe fu i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ystyried yr angen i fabwysiadu trefn o'r fath a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar hynny, yn ei gyfarfod ar 19 Gorffennaf 2021. Yn y cyfarfod hwnnw, cymeradwyodd y Pwyllgor i fynd ati i ymgymryd â'r broses o ystyried mabwysiadu Atodlen 3 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2009, er mwyn sicrhau cyfundrefn ar gyfer trwyddedu a rheoleiddio sefydliadau rhyw drwy'r sir.
- 1.4 Yn ogystal, fe gymeradwyodd y Pwyllgor i awdurdodi'r Pennaeth Adran Amgylchedd i ymgymryd â phroses o ymgynghori am 28 diwrnod, gan gychwyn ar 26 Gorffennaf 2021. Pan ddaeth y cyfnod ymgynghoriad i ben, cyflwynwyd adroddiad arall i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ar y 13 o Fedi i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac i wneud penderfyniad terfynol ynglŷn ag argymhelliad i'r Cyngor Llawn.
- 1.5 Fe wnaethpwyd penderfyniad i flaenoriaethu'r argymhelliad i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r drefn, oherwydd bod cwmni wedi cyflwyno cais o friad i agor siop rhyw yn Abermaw, a bod hyn wedi amlygu'r bwlch yn y gyfundrefn drwyddedu.
- 1.6 Penderfyniad unfrydol y Pwyllgor hwn oedd i argymhell i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r grymoedd, ynghyd ag argymhellion cysylltiol ar y rhybudd statudol, y dyddiad y daw'r mabwysiadu i rym, a dirprwyo'r grym i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol i bennu ffioedd, amodau safonol a chynllun prosesu ceisiadau.
- 1.7 Yn ei gyfarfod dyddiedig y 7fed o Hydref; fe benderfynodd y Cyngor Llawn yn seiliedig ar benderfyniad y Pwyllgor hwn, casgliadau'r ymgynghoriad cyhoeddus, casgliadau yr Aseiad Cydraddoldeb a llesiant yn ogystal a barn y swyddogion statudol i gymeradwyo mabwysiadu'r drefn rheoleiddio ar gyfer sefydliadau rhyw fel a ganlyn –
- Mabwysiadu ledled y sir Atodlen 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Plismona a Throseddu 2009, gan ddod yn weithredol ddim cynt na 1 Rhagfyr 2021.
 - Cyfarwyddo'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i gyhoeddi'r hysbysebion statudol ynghlwm â'r penderfyniad i fabwysiadu am 2 wythnos yn olynol, gyda'r cyntaf ddim hwyrach na 28 diwrnod cyn y dyddiad y daw'r penderfyniad i rym.
 - Dirprwyo'r materion o bennu ffioedd, gosod amodau safonol a chynllun prosesu'r ceisiadau i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

- 1.8 Cadarnheir fod yr hysbysebion statudol ynghlwm a'r penderfyniad, wedi ymddangos yn y papurau newydd lleol yn unol a'r drefn. Gweler gopi o'r hysbyseb yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

Grymoedd fydd ar gael i'r cyngor yn dilyn mabwysiadau Atodlen3

- 1.9 Mae mabwysiadu'r grymoedd yn Atodlen 3 fel y'i diwygiwyd ledled y sir yn galluogi'r Cyngor i reoleiddio a thrwyddedu sefydliadau rhyw. Mae sefydliadau rhyw yn cynnwys:
- Siop ryw (gwerthiant o nwyddau o natur rywiol)
 - Sinema rhyw (dangos ffilmiau gyda chynnwys sylweddol o natur rywiol)
 - Mangre adloniant rhywiol (eiddo busnes sydd yn cynnal adloniant byw o natur rywiol yn aml a rheolaidd).
- 1.10 Fe fydd yn cyflwyno hawl i'r Cyngor i osod amodau safonol ar drwyddedau sefydliad rhyw a chodi ffi rhesymol mewn perthynas â nhw.
- 1.11 Yn olaf, byddai mabwysiadu yn galluogi'r Cyngor i gymryd camau gorfodaeth mewn perthynas â'r troseddau canlynol (nodir y gosb uchafswm o gollfarnu gan Lys Ynadon mewn cromfachau):
- defnyddio unrhyw adeilad, cerbyd, cwch neu stondin fel sefydliad rhyw ac eithrio pan fo hynny'n unol â thrwydded a roddir gan y Cyngor (dirwy diderfyn);
 - gwneud datganiad ffals mewn perthynas â chais am drwydded sefydliad rhyw (dirwy di-derfyn);
 - methiant deilydd trwydded i arddangos ei drwydded heb esgus resymol (dirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol, sef £1,000.00 ar hyn o bryd).

2 Hysbysebion statudol

Yn unol a chyfarwyddyd y Cyngor llawn a gofynion cyfreithiol, gellir cadarnhau fod Rhybudd statudol wedi ei gyhoeddi yn y wasg ynghlwm â'r penderfyniad i fabwysiadu am 2 wythnos yn olynol, gyda'r cyntaf wedi ymddangos dim hwyrach na 28 diwrnod cyn y dyddiad y daw'r penderfyniad i rym. Gweler copi o'r hysbyseb yn yr atodiad i'r adroddiad.

3 Polisi trwyddedu sefydliadau rhyw

- 3.1 Mae'r Cyngor yn ystyried pob cais am drwydded yn unol a'i rinweddau ei hun. Er mwyn cysondeb, tegwch a thryloywder mae'r Gwasanaeth Trwyddedu a'r Pwyllgor hwn dros y blynyddoedd wedi mabwysiadu sawl polisi ac egwyddorion cyffredinol er pwrpas cynnig arweiniad yn ei ystyriaeth o geisiadau am drwydded.
- 3.2 Mae dogfen bolisi felly wedi ei lunio er cymeradwyaeth y Pwyllgor hwn; sydd yn cwmpasu'r prosesau a fabwysiedir mewn perthynas a Sefydliadau Rhyw.
- 3.3 Mae'r Polisi yn manylu ar y broses o geisio am drwydded, adnewyddu, amrywio a throsglwyddo trwyddedau sefydliad rhyw mewn perthynas ag eiddo sydd yn gweithredu oddi fewn i dalgylch Cyngor Gwynedd. Gweler y ddogfen Bolisi yn ei chyfanrwydd yn yr atodiad.

4 Proses trwyddedu

- 4.1 Er mwyn sicrhau trefn a chysondeb a cyfle i'r cyhoedd ac awdurdodau cyfrifol gyflwyno sylwadau; mae trefn benodol wedi ei sefydlu ar gyfer ymgeisio am drwydded.
- 4.2 Fe fydd angen i gais am drwydded gael ei derbyn ar ffurflen gais dynodedig; ac fe fydd angen i'r cais gael ei hysbysebu ar yr eiddo am 21 diwrnod ac yn y wasg am gyfnod penodol. Fe fydd angen i'r ymgeisydd sicrhau fod y rhybudd o gais yn darparu gwybodaeth digonol ar y bwriad; gan gynnwys manylion oriau agor a sut i wneud sylwadau ar y cais.
- 4.3 Fe fydd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am ymgynghori gyda Awdurdodau Cyfrifol gan gynnwys yr Heddlu, Awdurdod Cynllunio, Awdurdod Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Awdurdod Tan ac Achub yn ogystal ag Aelodau lleol.

- 4.4 Disgwylir y bydd unrhyw ymatebion yn cael eu derbyn yn ysgrifenedig , ddim hwyrach na 28 diwrnod ar ôl dyddiad derbyn y cais
- 4.5 Os fydd unrhyw ymatebion yn cael eu derbyn, fe fydd cais yn cael ei gyfeirio at Is Bwyllgor o'r Pwyllgor hwn am benderfyniad. Os nad oes ymatebion ar gais, fe fydd yn cael ei gymeradwyo gan y swyddogion awdurdodedig yn unol a'r hawliau dirprwyedig a bennir.
- 4.6 Mae'r ddogfen Polisi Sefydliadau Rhyw yn yr atodiad yn manylu y broses drwyddedu yn llawn ; ynghyd a sail gwrthwynebu cais a'r broses apêl.
- 4.7 Fe fydd trwydded wedi ei chymeradwyo yn parhau am flwyddyn; ac os bwriedir cyflwyno cais i adnewyddu trwydded , fe fydd rhaid gwneud hynny mewn da o bryd.
- 4.8 Fe fydd cais i adnewyddu trwydded hefyd yn cael ei gyfeirio i'r Is Bwyllgor os derbynir ymatebion ar y cais.

5 Gosod amodau safonol

- 4.9 Mae cyfundrefn rheoleiddio Atodlen 3 yn caniatáu i'r Cyngor fel Awdurdod Trwyddedu i roi amodau neu chyfyngiadau ar y drwydded a all gynnwys cyfyngiadau oriau agor, cyfyngiadau ar ymddangosiad (displays) a hysbysebu ar yr eiddo, edrychiad a pha mor weladwy yw tu mewn i'r eiddo o'r tu allan ayyb.
- 4.10 Mae'r amodau safonol i'w weld yn eu manylder llawn yn y r atodiad i'r Ddogfen Polisi Sefydliadau Rhyw.
- 4.11 Fe welir fod yr amodau yn cynnig hyblygrwydd i'r Is Bwyllgor Trwyddedu i newid neu ddileu neu ychwanegu amodau lle mae'n briodol i wneud hynny .

4. Ffioedd

- 4.1 Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod hawl i godi ffi am drwyddedau sefydliadau rhyw. Fe adolygir ffioedd trwyddedau yn flynyddol; ac mae'n rhaid gosod ffi sydd yn ddigonol i ganiatáu'r Cyngor i adennill costau .
- 4.2 Fe osodwyd y ffi presennol sy'n bodoli ers 2013. Nid yw y ffi trwydded siop rhyw wedi derbyn adolygiad blynyddol fel ffioedd eraill; gan fod yr unig siop yn y sir oedd ym Mangor wedi cau ers rhai blynyddoedd.
- 4.3 Mae'r ffi presennol o £310 wedi ei hadolygu er mwyn ystyried yn llawn costau prosesu a gweinyddu trwyddedau siopau rhyw o dan y drefn rheoleiddio newydd sydd wedi ei mabwysiadu gan y Cyngor. Yn dilyn adolygiad o gostau ; y ffi fydd yn cael ei gosod ar gyfer ceisiadau newydd fydd £560 ac ar gyfer ceisiadau adnewyddu, £505.

5. ARGYMHELLIAD

- 5.1 Bod y Pwyllgor yn :
 - Cymeradwyo Mabwysiadu ledled y sir y Datganiad o Bolisi Trwyddedu Sefydliadau Rhyw fydd yn gosod gweithdrefnau ac amodau er mwyn caniatáu rheoleiddio sefydliadau rhyw drwy gyfundrefn drwyddedu; yn weithredol o'r 6ed o Ragfyr 2021.
 - Cymeradwyo gosod y ffi a nodir sydd adlewyrchu gweinyddu a phrosesu ceisiadau am drwydded sefydliad rhyw ; a chymeradwyo adolygiad blynyddol o'r ffioedd hynny.